

MANYLEB ASESU LEFEL 4 – Rhan B

Enw'r myfyriwr:		Rhif Adnabod y myfyriwr:	
Rhaglen:	BA Add gyda SAC		
Modwl:	Materion Cwricwlwm		
Cod y modwl:	ECAD4011/C	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):	50%
Darlithydd:	Mathew Jones	Gwiriwr Mewnol:	Mathew Jones
Teitl yr Aseiniad:	Gan ddefnyddio thema neu chwedl draddodiadol fel symbyliad, ystyriwch sut y galled ymgorffori y chwech maes dysgu a phrofiad a pedwr diben (Donaldson – Dyfodol Llwyddiannus) mewn dull integredig, traws-gwricwlaidd.	Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):	Traethawd 2,000 o eiriau
Dyddiad cyflwyno:	Ionawr, dydd Llun 7fed, 2019.	Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:	Chwefror, 4ydd, 2019
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol): Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb. Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.		
Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:	Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		

Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)

DEILLIANNAU DYSGU

Erbyn diwedd y modwl hwn dylech allu:

- Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynghylch cwmpas, natur a diben y cwricwlwm cynradd yng Nghymru.
- Nodi dulliau effeithiol o addysgu meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen a phynciau allgradd Cyfnod Allweddol 2 gan gynnwys cynllunio, paratoi a gwerthuso adnoddau i gefnogi dysgu ac addysgu.
- Arddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn dulliau integredig, trawsgwricwlaidd.

DISGRIFIAD O'R DASG

Canllawiau Cyffredinol : Bydd angen i chi arddangos :

- gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynghylch cwmpas, natur a diben y cwricwlwm cynradd yng Nghymru.
- eich bod chi'n gallu nodi dulliau a phrofiadau effeithiol o gyflwyno cwricwlwm cynradd yng nghydestun Meysydd Dysgu a Phrofiad gyda ffocws ar blant 7 – 11 mlwydd oed.
- ymwybyddiaeth gadarn o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn dulliau trawsgwricwlaidd, integredig.
- gwybodaeth am ddulliau o ddysgu ac addysgu o fewn dull trawsgwricwlaidd.
- gallu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer plant o fewn Gyfnod Allweddol 2
- eich bod yn gallu cynllunio gwersi gan ddefnyddio dull trawsgwricwlaidd, integredig lle bo'n briodol
- gwybodaeth am adnoddau defnyddiol a fyddai'n gwella'r profiad dysgu /addysgu
- sut y gallech hyrwyddo'r FfLIRh a sgiliau ehangach yn eich gwersi (e.e. YCC, FfCD, Sgiliau Meddwl)

Bydd angen ichi sicrhau eich bod yn trefnu'ch gwybodaeth a'r hyn rydych wedi'i ddysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a chyflwyno'ch gwaith yn briodol.

Gweler Llawlyfr Cyfeirnod : Harvard ar gyfer dyfynnu cyfeirnodau, ayb

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt. Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad at *ystod* briodol o ffynonellau, a allai fod yn academiaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academiaidd, gwर्सlyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academiaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnil. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwyd fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnod addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylech ddarllen yn eang ac ysyried gwerth addysgu Meysydd Dysgu a Phrofiad . Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwyd fod yn berthnasol a deillio o ffynonellau credadwy. Byddai ymglymiad gydag ystod eang o lenyddiaeth, fel y nodwyd o'r rhestr ddarllen hanfodol ac argymhellir, o fantais. I gefnogi hyn dylid cynnwys ffynonellau a ganfuwyd yn annibynnol. Amlygwch bwyntiau allweddol o ran addysgu mewn dull integredig a thrawsgwricwlaidd.

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 4, dylech allu arddangos gwybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych yn arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylech arddangos gwybodaeth gymwys o gysyniadau ag egwyddorion sylfaenol o addysgu yn null trawsgwricwlaidd ac integredig. Atodwch gyfeiriad perthnasol at gysyniadau, modelau a theorïau ar gyfer addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff eich gallu i egluro dangos eich dealltwriaeth o gysyniadau a theorïau sy'n perthyn i addysgu'n drawsgwricwlaidd ddylanwad ar eich marc/gradd. Bydd angen i chi i ddangos dealltwriaeth o sut mae'r cwricwlwm yn esblygu yng Nghymru gan ystyried sut byddai hyn efallai'n arwyddocal i ddysgu i'r dyfodol.

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu cyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol, er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn yn unol â theorïau a chysyniadau sylfaenol eich pwnc/pynciau astudio. Dylech allu gwerthuso addasrwydd gwahanol ddulliau o ddatrys problemau sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio a/neu waith. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech roi cyfiawnhad dros eich dadleuon a'ch barn gan ddefnyddio tystiolaeth eich bod wedi myfyrio ar syniadau pobl eraill o fewn y maes pwnc a'ch bod yn gallu llunio barn a

dadleuon cadarn gan ddefnyddio data a chysyniadau. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

3. Dylech allu ffurfio barn gadarn yn unol â theorïau mewn perthynas ag addysgu Meysydd Dysgu a Phrofiad i ddisgyblion 7 – 11mlwydd oed. Trafodwch yn feirniadol gwerth a phwrrpas addysgu'n drawsgwricwlaidd. Dylech werthuso addasrwydd gwahanol ddulliau o addysgu'r pynciau all-graidd. Wrth wneud, dylech gyfiawnhau eich dadleuon a'ch barn gan gyfeirio at ymchwil. Dylech ddangos eich gallu i ystyried safbwyntiau / theorïau / dadleuon amrywiol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu'n drawsgwricwlaidd. Dylech ddangos y gallu i lunio dadleuon cadarn gan ddefnyddio tystiolaeth i ddod i gasgliadau synhwyrol mewn perthynas ag addysgu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad a'r pedwar diben mewn modd integredig a thrawsgwricwlaidd.

4. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 4, dylech allu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol er mwyn eu gwerthuso a'u dehongli yng nghyd-destun eich maes astudio. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

4. Dylech arddangos gwybodaeth sut byddech yn dysgu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad mewn modd integredig, trawsgwricwlaidd. Darparwch enghreifftiau o hyn ar waith gan gyfeirio at dechnegau a dulliau sylfaenol i gyflwyno'r cwrciwlwm yn llwyddiannus i ddisgyblion 7 – 11 mlwydd oed.

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer peth cyfrifoldeb personol. Mae hyn yn cynnwys dangos: eich bod yn gallu cyfleu canlyniadau'ch astudiaeth/gwaith yn gywir ac yn ddibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed hynny'n unigol a/neu'n gydweithredol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylai'r ysgrifennu fod yn ddealladwy, rhugl ac wedi cyflwyno'n broffesiynol gyda defnydd proffesiynol a chywir o'r iaith. Dylid arddangos gallu i gyfeiriodi'n gywir. Ceri arweiniad pellach yn Llawlyfr Cyfeirio Harvard (I'w ganfod ar dudalen croeso Moolde). Dylai unrhyw atodiadau a ychwanegir cefnogi'r sylwadau o fewn yr aseiniad.

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	Marciau sydd ar gael	Marciau a ddyfarnwyd
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		

Marc Asesiad (Mae marciau asesïadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)		%
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		